# Cyngor Cymuned Tudweiliog
## Tudweiliog Community Council

Heulwen Williams
Clerc/clerk
01758 770415

Pen Cefn,
Dinas,
Pwllheli.
LL53 8UB.

## Cofnodion Cyngor Cymuned Tudweiliog 10fed Hydref 2022

Presennol: Gareth Jones, Alyn Williams, Terry Huws, Henry Huws, Chris Brady, Catrin Williams, John Davies
Ymddiheuriadau: Sian Parri

1. Cadeiriwyd gan Gareth Jones ac estynnodd groeso i bawb.

2. Derbynwyd y cofnodion diwethaf fel rhai cywir.

3. Materion yn codi o'r cofnodion:
   a. **Y Gronfa Datblygu Cynaliadwy** – Cyn symud ymlaen hefo'r hysbysfwrdd sydd i'w osod ar wal y post, bydd y Clerc yn holi Carter Jonas a'r adran Gynllunio i ofyn caniatad.
   b. **Gor yrry ar lon ysgol Tudweiliog –** Bydd y Cerc yn cysylltu hefo Andrew Gregson gan nodi mai ar y lon o flaen Refail mae'r goryrry ac nid y pentref.
   c. **Tir Garnfadryn –** Cafodd y Cerc ymateb gan Gethin Jones Syrfewr Stadau Cynorthwyol Cyngor Gwynedd, yn gofyn am fwy o fanylion am y tir. Bydd y Clerc yn anfon map fydd yn dangos maint a lleoliad y darn tir.
   ch. **Cyfethol – 2 sedd wag –** Doedd dim enw wedi ei gyflwyno, bydd y Cynghorwyr yn ystyried ac yn holi yn y gymuned os oes rhywun a diddordeb. Dywedodd y Cadeirydd fod ganddo enw dan sylw ac y bydd yn cysylltu ag o.
   d. **Mynwent Newydd Tudweiliog** – Bu i'r Clerc holi a chael mwy o ddealltwriaeth o'r camau fydd rhaid eu cymeryd er mwyn cael mynwent newdd:
   Cam 1. Bydd rhaid rhoi cais cynllunio i newid defnydd tir – y ffi yma fyddai £230.00

Cam 2. Mae'n amod gan Cyfoeth Naturiol Cymru i gael 'ground water risk assessment 1". Mae cwmniau sy'n gwneud hyn ee. E-geo Solution Ltd – byddai cost dechreuol hyn yn £745 + TAW.
Cam 3- Bydd rhaid cysegru'r tir – bydd rhaid rhoi cais drwy lenwi ffurflen gan yr Esgobaeth
Cam 4 – Bydd rhaid cael planiau gan Bensaer
Cam 5 – Dechrau y gwaith tirlunio a ffensio/creu llwybrau ayyb.

Dywedodd Chris Brady y bydd yn pasio'r wybodaeth yma i Dafydd Wynne Finch, gan ofyn iddo pe byddai y cais yn methu Cam 1 neu 2 a fyddai ganddo dir arall mewn golwg. Hefyd cafwyd ar ddeall fod rhoi tir i'r fynwent yn amodol ar barodrwydd y tenant. Dywedodd Catrin Williams y byddai'n holi os oes cwmniau eraill fedra gyflwyno asesiad risg dwr.

dd. **Lloches bws Tudweiliog –** Cafwyd cadarnhad gan Rhain Wyn Williams o Cyngor Sir Gwynedd nad oes grantiau i'w gael oni bai fod y lloches ar lwybr bysiau Trawscymru.
Bydd Gareth Jones yn edrych ar y lloches ac asesu beth sydd angen ei wneud.

4. Gohebiaeth:

a. **Cronfa Covid 19 –** Ar ddechrau cyfnod Covid 19 bu i Gyngor Cymuned Tudweiliog gyfranu £1000.00 at gronfa Covid Ty Doctor Nefyn at ddibenion prynu ppe ac yn y blaen. Derbynwyd llythyr gan Dr Arfon Williams yn nodi fod rhan sylweddol o'r arian heb ei wario, ac yn cynnig i'r Cyngor Cymuned unai derbyn cyfraniad yn ol (pro rota) neu ei gyfranu at ddibenion cymdeithasol fel banc bwyd yn yr ardal. Penderfynwyd gan fod costau mawr o bosib yn gwynebu'r Cyngor Cymuned (Mynwent Newydd) mai da o beth fyddai ei gofyn am ein cyfraniad yn ol. Bydd y Clerc yn eu gwybyddu o'r penderfyniad.

b. **Siec Cyngor Gwynedd costau Etholiad £321.00 –** cafwyd caniadat i'w thalu

c. **Coeden ar lwybyr troed yn Llaniestyn –** cafwyd cwyn fod coeden wedi disgyn ar lwybr troed sy'n arwain o Llaniestyn i Garnfadryn. Nid yw'r llwybyr yma yng nghofal y Cynor Cymuned, ond bydd y Clerc yn gwybyddu'r adran llwybrau o hyn.

**Ch. Diffib Tudweiliog –** Yn hytrach na symud y diffib sydd yn y Lion ai osod yng nghanol y pentref, penderfynwyd i'r Clerc holi faint

fyddai'r gost o osod un newydd.

d. **Archwyliad Allanol Audit Wales –** Hyd yma ni chafwyd ymateb ynglyn a'r archwyliad allanol.

dd. **Cais Cynllunio C22/0896/46/DT Bryn Eithin, Llangwnnadl –** Cefnogi

e. **Cais Cynllunio C22/0863/46/LL Ty Cefn, Llangwnnadl –** Dim Sylw

f. **Cais Cynllunio C22/0864/46/LL Moel y Berth, Porth Colmon –** Dim Sylw

**5. Unrhyw fater arall-**

**a.** Bu i lori fawr fynd i draffeth ar dop lon ger Refail y Garn Garnfadryn, bu yno am oriau maith. Gofynwyd am arwydd i'w osod ar waelod lon ger Glan Beuno a Penbodlas fyddai'n rhybuddio loriau mawr nad yw'r ffordd yn addas.

**b.** Daeth pryder i sylw'r Cyngor Cymuned fod tyfiant yn tyfu ar wal o amgylch yr ysgol a allai wanhau cryfder y wal, ac orherwydd achosi iddi fod yn beryglus. Bydd y Clerc yn cysylltu a'r pennaeth i'w gwybyddu o'r pryder.

Cynhelir y cyfarfod nesaf Nos Lun 14eg Tachwedd 2022 am 7.30yh